**LC654**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

# Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru 2003

Mae Adran 108 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 yn rhoi'r hawl i'r Cynulliad wneud rheoliadau sy'n awdurdodi talu grantiau i bersonau er mwyn iddynt dderbyn addysg neu hyfforddiant. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod rheoliadau o'r fath yn darparu ar gyfer talu grantiau yn unig i unigolion sy'n dal "cyfrifon" sy'n gymwys o dan adran 104 o'r Ddeddf neu sy'n barti i drefniadau sy'n gymwys o dan adran 105.

Yn unol ag adran 105 o'r Ddeddf mae'r Rheoliadau'n dynodi bod yn rhaid i "drefniadau ymgymhwyso" olygu bod "person cymwys" yn cofrestru gyda "gweinyddydd cyfrifon dysgu". Mae'r rheoliadau yn diffinio "person cymwys" a "gweinyddydd cyfrifon dysgu".

Unwaith y mae "person cymwys" yn ymgymryd â "threfniadau ymgymhwyso", mae'r "person cymwys" yn dod yn "ddeiliad cyfrif dysgu unigol".

Yn unol ag adran 108 mae'r Rheoliadau yn darparu y gall "deiliad cyfrif dysgu unigol" fanteisio ar grant ar gyfer addysg neu hyfforddiant a bennir. Gall y Cynulliad bennu swm y grant, a sut i dalu'r rhandaliadau, fel y gwêl yn dda.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Ar ôl cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r rheoliadau hyn, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi gallu tynnu sylw at rai pwyntiau sydd wedi'u cymryd i ystyriaeth erbyn hyn. Felly, nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.5.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

11 Mawrth 2003